



Y PROSIECT

## TOILEDAU'R WAL DDWYREINIOL

Y CLEIENT

## AUK OPERATIONS LIMITED

GWERTH Y CONTRACT

£375K

Dylunio ac Adeiladu

## Y NOD

Y prosiect yma oedd y cyntaf mewn rhaglen dreigl gan AUK i ddiweddarau'r cyfleusterau amwynder. O ganlyniad, roedd yn rhaid dewis manyleb yn ofalus i sicrhau bod y cyfleuster yn addas i'w bwrpas ac yn sefydlu safon a fyddai'n feincnod ar gyfer y safle cyfan.

Y prosiect yma oedd y prosiect llawn cyntaf a wnaed gan Hollingsworth Ellery. Roedd y prosiect yn profi'r systemau diogelwch newydd eu datblygu ac ni chafwyd unrhyw broblemau. Roedd hefyd yn brosiect anodd yn nhermau dilyniannu a gweithio gerllaw manau gweithgynhyrchu awyrennau byw.





Hollingsworth Group (UK) Ltd  
St. Ives Way  
Engineer Park  
Sandycroft  
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

[www.hollingsworthgroup.co.uk](http://www.hollingsworthgroup.co.uk)

## Y DULL

Mae llawr resin cilfwaog wedi'i ffurfio yn ei le yn amgylchynu system banelau IPS i sicrhau bod modd golchi'r manau sy'n cael eu defnyddio'n drwm yn rheolaidd ac, os oes angen, ddefnyddio peiriannau golchi pwerus.

Mae'r darnau glanweithiol yn cynnwys rheolyddion isgoch i osgoi gwastraffu gormod o ddŵr ac maent wedi'u gosod ar ffrâm geberit sy'n cynnwys gwaith gosod y plymwr ac sy'n ddigon sefydlog i ymdopi â'r gweithlu mawr sy'n ei ddefnyddio.

## Y CANLYNIADAU

Mae'r prosiect cyflawn yn darparu'r cydbwysedd delfrydol rhwng gwydnwch ac ymddangosiad esthetaid.

Mae'r gorchudd llawr resin yn hawdd ei lanhau ac eto, gyda'r gleiniau silica micro ychwanegol sydd ynddo, mae ganddo nodweddion gwrthlithro rhagorol ar gyfer y gweithgareddau glanhau sy'n digwydd yn ddyddiol.

## CRYNODEB

Roedd y cyfleuster yn well na disgwyliadau'r cleientiaid ac yn cwrdd â holl ofynion y gweithlu ynghyd â'r personél glanhau a enwebwyd.

Cwblhawyd y prosiect heb unrhyw ddamweiniau na gofyn am gymorth cyntaf ac roedd y prosiect cyfan yn gyfatebol â 10,000 o oriau dynol a weithwyd yn ystod tymor y prosiect.

Cwblhawyd y gwaith erbyn y dyddiad trosglwyddo a chytunwyd ar y cyfrif terfynol ar sail addasu wythnosol gan roi gwybod yn llawn i AUK am holl botensial y prosiect gynted ag y byddai'r wybodaeth ar gael.